

No.

CYFARFOD BLYNYDDOL CYDBWYLLGOR Y GWASANAETHAU RHEOLIADOL A RENNIR

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr – Cynghorydd D. Lewis.

Yn cynrychioli Cyngor Dinas a Sir Caerdydd – Cynghorwyr L. Thorn (Cadeirydd ac Yn dirprwyo ar ran M. Michael) a Mrs. N. Mackie.

Yn cynrychioli Cyngor Bro Morgannwg - Cynghorwyr E. Williams (Is-gadeirydd) a J.W. Thomas)

(a) Ymddiheuriadau Am Absenoldeb –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr D. Patel (Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) a Councillor M. Michael (Cyngor Dinas a Sir Caerdydd).

(b) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(c) Penodi Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir (CAT) –

Roedd Pennaeth presennol y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i fod i ymddeol ar 31 Mawrth, 2022.

Dirprwyodd y Cytundeb Gweithio ar y Cyd ar gyfer y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir unrhyw benodiad i rôl Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir i'r Pwyllgor hwn.

Yn ei gyfarfod ym mis Medi 2021, awdurdodwyd y Bwrdd Rheoli Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir gan y Cydbwyllgor i ddechrau proses recriwtio i benodi Pennaeth Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir newydd gyda phenodiad i'r swydd i'w phennu gan y Pwyllgor yn ddiweddarach ar yr agenda hon.

Derbyniwyd 11 o geisiadau am y swydd gyda phedwar ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf a bennwyd gan fanyleb y person ar gyfer y swydd.

Symudwyd y pedwar ymgeisydd hyn ymlaen i'r cam cyfweld technegol ar 1 Rhagfyr, 2021.

No.

Roedd yr adroddiad yn manylu ar broses recriwtio'r Bwrdd Rheoli hyd yma.

Oherwydd dyddiad y cyfweiliadau technegol, hysbyswyd y Pwyllgor am yr ymgeiswyr a ddewiswyd gan y Bwrdd Rheoli ar gyfer cyfweiliad terfynol yn y cyfarfod hwn

PENDERFYNWYD –

(1) Y dylid nodi'r broses recriwtio hyd yma a chytuno ar restr fer y cyfweiliadau terfynol.

Y rheswm dros y penderfyniad

Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

Gwahardd Y Wasg A'r Cyhoedd

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol ar y sail ei bod yn debygol o gynnwys datgeliad o wybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

(e) Penodi Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio A Rennir (CAT)
(Gwybodaeth Eithriadol - Paragraff 15) –

Gofynnwyd i'r Aelodau nodi a chadarnhau (yn dilyn cyfweiliad) ymgeisydd addas i'w benodi i rôl Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo penodi P i swydd Pennaeth y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

(2) Dirprwyo'r holl drefniadau penodi gweddilliol i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor hwn a'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Rheoleiddio (Cyngor Bro Morgannwg).

Y rhesymau dros y penderfyniadau

(1) Rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Galluogi'r holl drefniadau penodi eraill i gael eu gwneud yn brydlon heb droi at y Pwyllgor hwn ymhellach.